**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Chwefror 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| P K Jones | Y V Jardine |
| S M Jones | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| William Evans | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson, M Durke a/ac K M Griffiths

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiadau.

2 **Cynigion Drafft Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Esboniodd y Cynghorwyr Will Evans ac Elliot King, Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant, Dave Howes, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan amlygu'r prif faterion ac ateb cwestiynau.

3 **Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion**

Cytunodd y panel ar y farn a’r argymhellion canlynol ar y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Nid oes unrhyw bryderon mawr ynghylch y gyllideb. Atebwyd yr holl gwestiynau yn y cyfarfod.
- Er ein bod yn falch o weld bod y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynyddu'r flwyddyn nesaf, rydym yn deall nad yw'n cynyddu

mewn gwirionedd gan y bydd y cynnydd yn talu am godiadau cyflog a chostau llety.
- Mae'r panel yn cydnabod ei fod yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn gan ei fod yn wasanaeth sy'n ymateb i galw.
- Bydd y Panel Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i graffu ar y gwasanaeth yn y dyfodol gan wneud awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer newid.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Bydd y cynullydd yn cyfleu barn y panel, ynghyd â chynullwyr paneli eraill, i'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid, sy'n cwrdd ar 12 Chwefror. Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid wedyn yn mynd i gyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror i gyfleu barn y paneli craffu perfformiad ac yn ysgrifennu llythyr at Aelod y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25 pm